Down to Earth
CREATING A BETTER WORLD TOGETHER

Pwy ydym ni?

Credwn y gallwn greu byd gwell - un sy'n dda i bobl ac yn dda i'r blaned.

Rydym yn credu mewn mynd i'r afael ag anghydraddoldeb ynghyd â heriau cynaliadwyedd – ar yr un pryd – drwy ddull cynhwysol newydd o weithio.

Rydym yn gwneud hyn drwy gefnogi pobl sydd yn aml ar ymylon cymdeithas - credu mewn pobl a chreu cyfleoedd i adeiladu byd gwell.

downtoearthproject.org.uk
01792 232 439
@DTEProject

Rydym ni'n edrych am Gyfarwyddwyr Anweithredol

Cyflog: Di-dâl
Oriau: 6 Cyfarfod Bwrdd y flwyddyn
Yn Adrodd i: Y Bwrdd o Gyfarwyddwyr

Ymunwch â'r Bwrdd!

Rydym yn chwilio am gyfarwyddwyr anweithredol newydd (aelodau bwrdd) ar gyfer ein grŵp o fentrau cymdeithasol sydd wedi ennill gwobrau. Mae ein mwyafrif o aelodau bwrdd di-dâl (tebyg i ymddiriedolwyr) yn ganolog i sicrhau bod effaith Down to Earth yn parhau i dyfu tra'n cynnal atebolrwydd rhagorol a llywodraethu da.

Am beth ydym ni'n chwilio?

Rydym angen pobl ymroddedig ac angerddol sy'n credu y gallwn greu byd gwell gyda'n gilydd. Fel y gwelwch yn y Fanyleb, rydym yn chwilio am ystod o setiau sgiliau ar gyfer o leiaf 2 aelod newydd i ymuno â'n bwrdd. Rydym yn annog gwahanol safbwyntiau a chefndiroedd a phobl o wahanol sectorau.

Nid ydym ni'n sefydliad 'Busnes fel arfer'

Yn bendant nid ydym yn sefydliad "busnes fel arfer". Fel grŵp o fentrau cymdeithasol, rydym yn gweithredu drwy fodel nad yw'n dosbarthu er elw ond yn ymdrechu i gael arian dros ben i hybu ein heffaith.

Oriau disgwyliedig a lleoliad

Rydym yn cynnal cyfarfodydd bwrdd 6 gwaith y flwyddyn yn ein lleoliadau Gŵyr (Abertawe). Cynhelir pedwar cyfarfod bwrdd ar fore Gwener rhwng 9am a 12pm ac mae dau gyfarfod bwrdd yn ddydd Gwener llawn. Rydym yn agored i rywfaint o bresenoldeb rhithwir ond byddai'n well gennym bresenoldeb wyneb yn wyneb yn bennaf. Disgwylir mewnbwn ad hoc hefyd yn ddibynol ar anghenion prosiect a busnes.

Ein grŵp o fentrau cymdeithasol

Mae gennym 2 fenter gymdeithasol: Prosiect Down to Earth (DTEP) a Down to Earth Construction (DTEC). Mae'r ddau yn union yr un fath yn eu Herthygl Cymdeithasu ac mae'r ddau yn gwmnïau cyfyngedig trwy warant. Mae DTEC yn is-gwmni sy'n eiddo llwyr i DTEP. Rydym yn chwilio am gyfarwyddwyr anweithredol ar gyfer y ddau gwmni.

Buddion

Mae rolau aelodau anweithredol y bwrdd yn ddi-dâl, er ein bod yn talu costau ac unrhyw hyfforddiant angenrheidiol. Mae aelodau'r Bwrdd hefyd yn gallu defnyddio safleoedd Down to Earth at ddibenion personol a gwaith, yn ogystal â'n cyfleusterau gwefru cerbydau trydan, am ddim.

Cyfnod y penodiad

Penodir aelodau'r Bwrdd am gyfnod o 4 blynedd gyda'r potensial i adnewyddu hyd at 2 waith.

Cyfrifoldebau:

Fel cyfarwyddwr anweithredol, byddwch wedi'ch cofrestru fel cyfarwyddwr gyda Thŷ'r Cwmnïau. Mae'r cyfrifoldebau yn cynnwys:

- Atebolrwydd a llywodraethu
- Cyngor
- Cefnogaeth benodol i'r tîm

Manyleb Aelod Bwrdd:

Rydym am benodi o leiaf 2 aelod bwrdd newydd gyda phrofiad mewn o leiaf un o'r meysydd hyn:

- **Adeiladu** – datblygiad masnachol safleoedd ar gyfer tai a chyfleusterau sector cyhoeddus
- **Gweithgynhyrchu** – dulliau oddi ar y safle a modern o adeiladu paneli ar gyfer adeiladau
- **Pensaernïaeth** – dylunio cynlluniau tai a chyfleusterau sector cyhoeddus
- **Datblygu busnes** – profiad uniongyrchol o dyfu busnesau yn llwyddiannus
- **Buddsoddi er effaith a chodi arian** – buddsoddiad masnachol a chynhyrchu incwm yn seiliedig ar grantiau ar gyfer twf

Sgiliau, Gwybodaeth a Phrofiad: Hanfodol

- O leiaf 5 mlynedd o brofiad yn un o'r meysydd yn y fanyleb
- Sgiliau cyfathrebu cadarn
- Angerdd am greu byd gwell i bobl a natur

Sgiliau, Gwybodaeth a Phrofiad: Dymunol

- Iaith Gymraeg
- Profiad lefel Bwrdd

Oes gennych chi ddiddordeb?

Ewch i'n gwefan i **lawrlwytho pecyn gwneud cais**: www.downtoearthproject.org.uk/job-opportunities/

Cyflwyno cais drwy e-bost: anfonwch eich ffurflen gais a CV i: **jobs@downtoearthproject.org.uk**

Dyddiad Cau: 8am dydd Llun y 4ydd o Ragfyr 2023

Cyfweliadau: dydd Mercher yr 20fed o Ragfyr yn ein safle Murton, Abertawe (SA3 3AP).

Dyddiad dechrau: Bydd cyfarfod cyntaf y bwrdd yn cael ei gynnal ar y 26ain o Ionawr 2024 gyda sesiwn sefydlu tair awr yr wythnos flaenorol.

Diolch am ddarllen!